

Fe ddewiswyd **Maelgwn Gwynedd** yn benarglwydd y genedl Gymreig ar farwolaeth ei dad **Caswallon Law Hir**, oedd â'i bencadlys yn Bodysgallen, neu Bod Caswallon, y Creuddyn ger Llandudno heddiw. Hwn fu yn gyfrifol am ymlid y Gwyddelod o Ynys Môn ac a laddodd Seregri eu tywysog â'i law ei hun ger Cerrig y Gwyddel neu Caergybi heddiw, yn y flwyddyn 470. Roedd gan Caswallon Lys arall ger Amlwch ar Ynys Môn.

Prifgadlys ei fab Maelgwn Gwynedd oedd castell Deganwy. Efe a ddilynodd ei dad ar orsedd Gwynedd yn y flwyddyn 517, ac yn 546 fe'i etholwyd ef yn frenin y Brythoniaid ar farwolaeth Gwrthefyr, a oedd wedi teyrnasu am bedair blynedd wedi marwolaeth ei dad, Cynan Wledig.

Roedd Maelgwn Gwynedd yn enwog am ei arweiniad brwdfrydig, yn ŵr cryf a mawr o gorff, hefyd yn benderfynol i'r eithaf. Yn yr amser yma roedd amryw o wledydd bychain dan ei deyrnasiad. Efe a adeiladodd gestyll Caer Digoll ger Trefaldwyn; Collwyn ger Harlech, a'i gaer ei hun yn Neganwy. Efe hefyd a wnaeth Gadeirlan Bangor yn Arfon yn Esgobaeth. Bu farw Maelgwn Gwynedd yn Eglwys y Rhos y Creuddyn, o'r fad felen yn y flwyddyn 560. Dywedir iddo gael y clwy hwn yn dilyn brwydr Morfa Rhianedd, pan adawyd cyrff milwyr heb eu claddu ar faes y gad, ac oherwydd hyn fe'i claddwyd yntau mewn lle anghysbell ar Ynys Lawnog, neu fel y gelwir hi heddiw, Ynys Seiriol, ar arfordir Môn.


Yn dilyn marwolaeth Maelgwn Gwynedd daeth **Elidir Mwynfawr**, mab Gwrwst, brodor o hil Ceretic i lawr o sir Gaerhirfryn (*Lancaster*). Roedd hwn yn ŵr i Eurgain, merch gyfreithlon Maelgwn Gwynedd. Roedd yn amlwg iddo ddod i hawlio gorseddffainc Maelgwn, ond mewn ychydig ddyddiau fe'i lladdwyd ger Abermewydus, yn y flwyddyn 560. Fe gredir mai yr afon Wefys oedd hon yn rhedeg i'r afon Desach o Fron yr Erw, uwchlaw Clynnog Fawr yn Arfon.

(*Aber Mewydus = Aber y Dŵr Diog, neu y Dŵr Araf*)

Roedd Rhun Hir neu fel y'i gelwir, **Benlli Gawr**, yn ŵr tal o faint a chryfder, ac yn fab anghyfreithlon i Maelgwn Gwynedd, ac yn hanner brawd i Eurgain, gwraig gyfreithlon Elidir Mwynfawr.

Rhai o Gymry a ddaeth i ddial marwolaeth Elidir oedd Clydo Eidynd, Nudd Hael, Mordaf Hael a Rhydderch Hael. Cawsant eu herlid yn ôl i Gaerhirfryn gan Benlli Gawr, neu Rhun ap Maelgwn.

Edgar Pritchard yn olrhain teulu Caswallon Law Hir



Llurig Benlli Gawr

Mab gordderch Maelgwn Gwynedd oedd Rhun, ei fam oedd Gwallwen, merch Afallach, ac ef a ddaeth i orseddffainc ei dad Maelgwn yn y flwyddyn 561. Ei brif lys oedd Caerhun, neu Caerhun, Conovium y Rhufeiniaid ger yr afon Conwy. Roedd y Rhufeiniaid wedi gadael Prydain yn y flwyddyn 407, tua chant a hanner o flynyddoedd cyn hyn, ac roedd Rhun a'i fyddin Gymreig ar y pryd yn aros yn ei gaer ar Foel Fenlli, nid nepell o Lanferres, Sir Ddinbych. Roedd y gaer hon yn edrych i lawr ar Ystrad Alun, ar yr Wyddgrug i'r gogledd ddwyrain, gan mai o'r cyfeiriad hwn y daetha'r mwyafrif o'i elynion, yn Saeson ac weithiau ei berthnasau o Cumbria neu (Cymroland) neu Gaerhirfryn (*Lancaster*).

Credir mai yma y bu farw Rhun, yn y flwyddyn 586, ac y claddwyd ei weddillion tan Fryn yr Ellyllion neu Bryn y Baal, fel y'i gelwir heddiw, yn yr Wyddgrug (Prif Lys y Cymry).

Roedd Rhun neu Benlli Gawr, fel y'i gelwir, yn dalach dyn na'i dad Maelgwn, ac roedd angen cyfrwy arbennig iddo farchogaeth. Roedd Rhun hefyd yn un o dri aurhualogion Ynys Prydain gyda Cadwaladr ap Cadwallon neu Cadwaladr Fendigaid, brenin olaf y Cymry, a fu farw yn Rhufain yn y flwyddyn 689. Hwn hefyd a gafodd yr enw Catgubail Catguomedd, sef y gŵr na fynnai ymladd. Fe'i anrhydeddodd fel Sant. Roedd yn fwy cyfarwydd ag adeiladu eglwysi a gwaddoli mynachdai nag ydoedd â rhyfela. Roedd yn nawddsant tair eglwys: Llangadwaladr Llanrhaeadr ym Mochnant, Sir Ddinbych; Llangadwaladr 'Bishopstone', Sir Fynwy; Llangadwaladr ger Aberffraw, Ynys Môn, lle y claddwyd ei daid, Cadfan.

Y trydydd oedd Rhiwallon. Fe wisgent wasgod wedi ei haureuro a dau neu dri chant o baderau bychain wedi eu cysylltu yn gywrain, eu gwneuthuriad o aur pur yn mesur tua thair troedfedd saith modfedd o hyd ac yn cau ar y cefn; roedd un yn pwysu dwy owns ar bymtheg. Roedd ganddynt hefyd bedyll o aur o amgylch eu hysgwyddau, a dwy arall ar eu cyfrwy i ddal eu pengliniau pan yn marchogaeth, gan eu bod yn wŷr tal.

Darganfyddwyd y wasgod a'r pedyll aur, goludog hyn ar weddillion Rhun fab Maelgwn Gwynedd yn y flwyddyn 1833 gan weithwyr oedd yn atgyweirio ac yn arall gyfeirio ffordd newydd yn yr Wyddgrug. Ble heddiw mae'r ddwy wasgod aur arall? *Ai yn Amgueddfa Lloegr (British Museum) y mae y rhai hyn hefyd?*

Mab Rhun neu Benlli Gawr oedd **Beli** a ddaeth i deyrnasu ar diroedd ei dad yn siroedd Dinbych a Fflint. Ei fam oedd Perweur, merch Rhun Rhyfeddfawr. Bu Beli yntau, fel ei dad, mewn rhyfeloedd maith a gwaedlyd yn erbyn y Saeson, a hefyd ei gefndryd o'r gogledd a ddaeth i lawr i ogledd Cymru i ladd a dinistrio a llosgi pob peth a welsant, fel dial am farwolaeth Elidir Mwynfawr, mab Gwrwst Briodor. Yn dilyn hyn aeth rhai o ddisgynyddion Osmael, mab ieuengaf Cunedda y llosgwr, i achwyn at Beli. Casglodd yntau ei fyddin ac i ffrwd â hwy am y gogledd i dalu'r pywth yn ôl.

Ar ôl dwy flynedd bu rhaid iddynt ddod yn ôl ar frys gan i Ceawlin a'i fyddin o Angliaid gorllewinol ymosod ar ganolbarth Cymru ac, yn Fferflys ar gyffiniau Sir Frycheiniog, bu rhyfel lle gorchfygwyd Ceawlin a'i fyddin yn llwyr.

Pan ddychwelodd Beli i ogledd Cymru bu mewn brwydr

arall ar y Maes Mawr nid nepell o Gilcain heddiw; yno lladdwyd Beli ac fe'i claddwyd rhwng dau faen mawr yn Nant y Meini. Yn ddiweddarach fe godwyd y meini hyn gan ŵr a elwir Edward ap Sion ap Llywelyn o Ial, y pryd hynny, hefyd, symudwyd beddrod Beli i Eglwys Llanarmon yn Ial.

Englynion y Beddau

Pieu y bet yn y Maes Mawr,
Balch ei law ar ei lafnawr,
Bet Beli vab Benlli Gawr.

Cyfnewidiadau ac Enwau Eraill

Yn y flwyddyn 1337, enw'r afon oedd Alun ond, erbyn y flwyddyn 1373, fe'i galwyd yn Elyn. Galwyd hi wedyn yn Alan, ond yn y flwyddyn 1700 penderfynwyd mai Afon Alun oedd yr enw gwreiddiol a'r cywiraf.

Yr Wyddgrug - Llys y Cymry
Ystrad Alun - Vale of Alun
Normanaidd - Mount - Lau
Saesnig - Mohant - Moald - Mold
(*Llygredigaeth*)
Lladin - Mons Altus

Ystrad Alun a'r Wyddgrug

Fe wyddom mai tir gwastad rhwng y mynyddoedd a llawr dyffryn yw ystrad, ac y mae amryw yng Nghymru, ond o ble daeth y gair Alun? Mae'n debyg mai gair Celtaidd yw, Alanunos, enw ar afon, ac un o Dduwiau Rhufeinig (Duw yr Arian Byw).

Mae'r afon Alun yn tarddu yn Cynr y Brain, i'r gogledd o Langollen ac ar ei thaith i'r afon Ddyfrdwy a'r môr, fe'i gwelir yn Llanedega, Llanarmon yn Ial, Llanferres, Yr Wyddgrug ac amryw o bentrefi eraill.

Rhyd y Gyfarthfa

ger Loggerheads

Yma dywedir y byddai'r hen Borthmyn yn croesi yr afon Alun gyda'u hanifeiliaid pan ar eu ffordd i farchnadoedd yr Wyddgrug, Caer ac ymhellach i Loegr, ac yma hefyd byddai'r cŵn yn cyfarth yn swllyd ac yn afreolaidd wrth yrru yr anifeiliaid ar draws y Rhyd, drwy'r afon.

Enwau Llefydd yn ymwneud â Benlli Gawr, Rhun Hir, neu Rhun ap Maelgwn

Dechreuodd deyrnasu yn y flwyddyn 561, a bu farw yn 586. *Bryn yr Ellyllion*, neu *Bryn y Baal* - (Yr Wyddgrug). Yma y'i claddwyd.

Moel Benlli - Yma bu farw; ei brif Gaer oedd Caerhun ger Conwy (Conovium y Rhufeiniaid).

Y Maes Mawr - Yma y lladdwyd ei fab, Beli, ger Cilcain.

Rhyd y Gyfarthfa - Ger 'Loggerheads'.

Nant y Meini - Yma y claddwyd ei fab Beli, yn gyntaf rhwng dau faen mawr, cyn ei symud yn ddiweddarach i Eglwys Llanarmon yn Ial.

Llanarmon yn Ial - Eglwys wedi ei chysegru i Sant Garmon.